

We only use cookies that are necessary for this site to function to provide you with the best experience. The controller of this site may choose to place supplementary cookies to support additional functionality such as support analytics, and has an obligation to disclose these cookies. Learn more in our [Cookie Statement](#).

Newyddion a rhybuddion



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Diweddaraf i'r Diwydiant Twristiaeth

Croeso Cymru Newyddion diwydiant



Newyddion i'r Diwydiant Twristiaeth yng Nghymru

I gofrestru ar gyfer ein cylchlythyr, [cliciwch yma](#).

Yn cael trafferth i weld yr e-bost yma, neu i'w rannu, [edrychwch arno ar-lein](#).

28 Gorffennaf 2023



Y Diweddaraf i'r Diwydiant Twristiaeth

CYNNWYS BWLETIN: Mwynhewch Gymru mewn modd diogel yr haf hwn; Cymru'n croesawu'r Bencampwriaeth Agored Golffwyr Hŷn yn ôl; Darganfod Cymru 2023 – mae'r dyddiad cau wedi'i ymestyn tan 4 Awst; Digwyddiadau a ariennir gan Ddigwyddiadau Cymru 2023; Galw am: y newyddion a'r cynigion diweddaraf ar gyfer yr haf gan atyniadau ledled Cymru; Adroddiadau galw'r farchnad ym maes twristiaeth: Mai 2023; Cadarnhau Ffliw Adar yn Sir Benfro; Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Rhentu cartrefi: llety gwely a brecwast a ddefnyddir at ddibenion digartrefedd / Newidiadau i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 / Cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru; Gwarchod Wisgi Cymreig Brag Sengl; Ramblers Cymru - Holiadur llwybrau a mynediad 2023; Saith peth efallai na wyddoch am derfyn cyflymder diofyn 20mya newydd Cymru; Datganiadau Ysgrifenedig; Defnyddio Cymraeg yn eich busnes; Newyddion diweddaraf Busnes Cymru.

Mwynhewch Gymru mewn modd diogel yr haf hwn

Gyda'r ysgolion bellach ar eu gwyliau, mae Croeso Cymru wedi ymuno gyda Mentro'n Gall Cymru ar ymgyrch i ddangos i bobl sut i fwynhau'r awyr agored mewn modd diogel dros yr wythnosau nesaf.

Wrth i bobl fynd allan i ddarganfod antur yr haf hwn, mae [ymgyrch Addo](#) yn gofyn i bobl gynllunio ymlaen llaw a pharatoi. Bydd yr ymgyrch sy'n cynnwys hyrwyddo ar cyfryngau cymdeithasol, radio digidol a Spotify yn dangos y gall meddwl am funud cyn mentro i fwynhau'r dirwedd a'r arfordir arwain at brofiad cadarnhaol a diogel.

Darllenwch y datganiad i'r wasg yn llawn ar: [Mwynhewch Gymru mewn modd diogel yr haf hwn | LLYW.CYMRU](#).

Cymru'n croesawu'r Bencampwriaeth Agored Golffwyr Hŷn yn ôl

Mae'r Bencampwriaeth Agored Golffwyr Hŷn a gyflwynir gan Rolex yn dychwelyd i Glwb Golff Brenhinol Porthcawl am y tro cyntaf ers chwe blynedd y penwythnos hwn, wrth i gwrs Pen-y-bont ar Ogwr groesawu Pencampwriaeth 2023, lle mae rhai o enwogion y byd golff ar fin brwydro ar arfordir Cymru.

Ennill y Bencampwriaeth Agored Golffwyr Hŷn a gyflwynir gan Rolex yw un o'r llwyddiannau mwyaf adnabyddus yn y gêm hŷn ac mae'n dychwelyd i Glwb Brenhinol Porthcawl am y tro cyntaf ers 2017, sy'n golygu mai dyma'r trydydd tro i Gymru gynnal y digwyddiad. Mae'r lleoliad, sy'n cynnig golygfeydd godidog ar draws Bae Abertawe i Benrhyn Gŵyr ac sydd wir yn profi sgiliau golff, wedi cynnal sawl pencampwriaeth fawreddog fel Yr Amatur a Chwpan Walker. Bydd hefyd yn cynnal Pencampwriaeth Agored Menywod AIG yn 2025, un o'r digwyddiadau mwyaf mewn chwaraeon menywod, a dyma fydd y tro cyntaf i'r digwyddiad hwnnw gael ei gynnal yng Nghymru.

Darllenwch y datganiad i'r wasg yn llawn ar: [Cymru'n croesawu'r Bencampwriaeth Agored Golffwyr hŷn yn ôl | LLYW.CYMRU](#)

Darganfod Cymru 2023 – mae'r dyddiad cau wedi'i ymestyn tan 4 Awst

Mewn partneriaeth ag aelodau UKinbound, De Cymru a 'The Royal Mint' bydd Darganfod Cymru 2023 yn digwydd ar 9-10 Hydref 2023.

Bydd yn gyfle i drefnwyr teithiau UKinbound ymweld â De Cymru a phrofi cynnyrch rhyngwladol sy'n gyfeillgar i'r Fasnach Deithio. Bydd y digwyddiad yn cynnwys cyfle rhwydweithio gyda'r nos a gweithdy hanner diwrnod yng Nghaerdydd i gwrdd â'r 30 o brynwyr sy'n canolbwyntio ar y farchnad ryngwladol. Mae busnesau o Gymru sydd wedi gweithio gyda'r Fasnach Deithio ryngwladol/wedi mynychu digwyddiadau yn y Fasnach Deithio ryngwladol gyda Croeso Cymru yn y gorffennol yn cael eu gwahodd i gymryd rhan.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth drwy'r [ddolen hon](#) a'r dyddiad cau ar gyfer 'mynegi diddordeb' i gymryd rhan yw 4 Awst 2023, neu'n gynt os yw'r holl leoedd cyfyngedig yn cael eu gwerthu.

Digwyddiadau a ariennir gan Ddigwyddiadau Cymru 2023:

- [Gŵyl Steelhouse 28-30 Gorffennaf, Glyn Ebwy](#) - Gŵyl gerddorol uchaf y DU yn swyddogol - cynhelir y digwyddiad unigryw hwn yn Fferm Hafod-y-Dafal ar gyrion deheuol Bannau Brycheiniog.
- [Gŵyl Between the Trees 25-27 Awst, Merthyr Mawr](#) - Rhestr o gerddoriaeth werin draddodiadol, indie a chyfoes dros dridiau. Gall ymwelwyr ailgysylltu â natur trwy amrywiaeth o weithgareddau a gweithdai gwyddonol, creadigol llenyddol a lles.
- [British Speedway Grand Prix 2 Medi, Caerdydd](#) - digwyddiad chwaraeon moduro dan do mwyaf Prydain yn dychwelyd i Stadiwm Principality Caerdydd.

Galw am: y newyddion a'r cynigion diweddaraf ar gyfer yr haf gan atyniadau ledled Cymru

Os ydych yn atyniad sydd â chynigion a/neu rhywbeth newydd yn digwydd yr haf hwn, rhowch wybod i ni heddiw. Rydym am ychwanegu'r wybodaeth ddiweddaraf at [Croeso.Cymru](#) a rhannu manylion gyda'n cysylltiadau cyhoeddus a'r cyfryngau.

Rydym hefyd eisiau gwybod beth mae busnesau twristiaeth a lletygarwch wedi'i gynllunio ar gyfer Calan Gaeaf, Noson Tân Gwyllt, Nadolig a'r hyn sy'n newydd ar gyfer 2024.

Anfonwch ebost heddiw: productnews@llyw.cymru.

Adroddiadau galw'r farchnad ym maes twristiaeth: Mai 2023

Bob blwyddyn mae Croeso Cymru yn cynnal ymchwil ymhlith ei marchnadoedd blaenoriaeth. Ar gyfer mis Mai 2023 mae'r adroddiadau'n cwmpasu Ffrainc, yr Almaen ac UDA. Ymchwilir i sawl agwedd gan gynnwys:

- y mathau o brofiadau a ffefrir ar wyliau gan bob marchnad
- cynlluniau i ymweld â Chymru yn y dyfodol
- rhwystrau rhag dod ar drip i Gymru
- sut mae darparu ymwelwyr yn cynllunio ac yn archebu

Darllenwch yr adroddiadau ar: [Adroddiadau galw'r farchnad ym maes twristiaeth: Mai 2023 | LLYW.CYMRU](#)

Cadarnhau Ffliw Adar yn Sir Benfro

Mae cannoedd o adar y môr wedi cael eu canfod ar draethau ar arfordir De Sir Benfro yn ddiweddar. Mae profion wedi eu gwneud ar sampl o'r adar marw, ac mae Ffliw Adar wedi'i gadarnhau. Ni ddylai aelodau'r cyhoedd gyffwrdd ag unrhyw adar marw neu sy'n amlwg yn sâl, na'u casglu, a dylent gadw eu cŵn ar dennyn er mwyn eu hatal rhag dod i gysylltiad.

Dylech ddefnyddio'r [system ar-lein \(ar GOV.UK\)](#) neu ffoniwch linell gymorth DEFRA (03459 335577) os byddwch yn dod o hyd i unrhyw adar marw.

Dylid rhoi gwybod i'r RSPCA ar unwaith am adar sâl neu adar sydd wedi'u hanafu ar 0300 1234 999.

Am ragor o fanylion, ewch i: [Gweinidog yn ymweld ag ynysoedd Sir Benfro wrth i bryder am achosion o fflw adar gwyllt dyfu | LLYW.CYMRU](#)

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

- Rhentu cartrefi: llety gwely a brecwast a ddefnyddir at ddibenion digartrefedd**
- Rydym am wybod eich barn chi am y diwygiadau arfaethedig i Atodlen 2 o Ddeddf 2016 a fydd yn atal llety gwely a brecwast a ddefnyddir at ddibenion digartrefedd rhag bod yn ddarostyngedig i gontract meddiannaeth. Mae'r [ymgyngoriad](#) bellach ar **agor a bydd yn cau ar 15 Medi 2023**.

Canlyniad Yr Ymgynghoriad

- Newidiadau i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005** - Mae crynodeb o ymatebion ac ymateb Llywodraeth Cymru iddynt, mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar [gychwyn adran 156 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau'r DU 2022 yng Nghymru](#), a fydd, pan gaiff ei chychwyn, yn gwneud diwygiadau i Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ('yr FSO') bellach ar gael ar Llyw.Cymru.

Bydd y newidiadau hyn yn gosod dyletswyddau ychwanegol ar y rheini sy'n gyfrifol am ddiogelwch tân mewn adeiladau preswyl sy'n cynnwys dwy set neu ragor o anheddau domestig a'r rhan fwyaf o adeiladau annomestig eraill sy'n dod o dan yr FSO.

- Cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru** - Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar sefydlu cynllun trwyddedu statudol i ddarparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru bellach ar gael ar [Llyw.Cymru](#).

Ewch i [gwefan Llywodraeth Cymru](#) i gael gwybodaeth am ymgynghoriadau eraill.

Gwarchod Wisgi Cymreig Brag Sengl

Mae un o wirodydd mwyaf poblogaidd Cymru, y Wisgi Cymreig Brag Sengl, bellach wedi'i ddiogelu'n swyddogol ar ôl iddo sicrhau statws Dynodiad Daeryddol Gwarchoddedig y DU. Dyma'r gwirod newydd cyntaf yn y DU i ennill statws Dynodiad Daeryddol ers lansio Dynodiad Daeryddol y DU a dyma hefyd wirod Dynodiad Daeryddol cyntaf Cymru.

Darllenwch y datganiad i'r wasg yn llawn ar [Llyw.Cymru](#)

Ramblers Cymru: Holiadur llwybrau a mynediad

Hoffai Ramblers Cymru gael eich barn ar gyflwr presennol llwybrau yn eich ardal leol. Mae'nt am wybod am Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn eich ardal chi a sut rydych yn eu defnyddio ac unrhyw rwystrau posibl yr ydych wedi dod ar eu traws yn ystod y 12 mis diwethaf. Mi fydd yr holeb yma yn cau am hanner dydd ar y 27 Mis Awst 2023.

Gallwch gael mynediad i'r arolwg yma: [Holiadur llwybrau a mynediad 2023 \(google.com\)](#).

Saith peth efallai na wyddoch am derfyn cyflymder diofyn 20mya newydd Cymru

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i basio deddfwriaeth i ostwng y terfyn cyflymder cenedlaethol diofyn ar ffyrdd preswyl a strydoedd prysur i gerddwyr o 30mya i 20mya pan bleidleisiodd y Senedd o blaid hynny ym mis Gorffennaf 2022. Mae'r gwaith bellach yn mynd rhagddo i sicrhau bod Cymru'n barod am y newid, gyda'r terfyn cyflymder newydd yn dod i rym ar 17 Medi 2023.

Cewch ragor o wybodaeth ar [Llyw.Cymru](#).

Datganiadau Ysgrifenedig

Mae'r datganiadau ysgrifenedig a gyhoeddwyd y mis hwn yn cynnwys y canlynol:

- Julie James AS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd:** [Y diweddaraf ar Reoliadau Ailgyrchu i Weithleoedd \(20 Gorffennaf 2023\)](#)
 - Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth:** [Cymru fel cyrchfan fyd-eang i dwristiaid – adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig, Gorffennaf 2023 \(13 Gorffennaf 2023\)](#)
 - Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi:** [Adroddiad Gwerthuso Cwpan y Byd FIFA \(11 Gorffennaf 2023\)](#)
 - Julie James AS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd:** [Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd a Chynllun Peilot Dwyfor: diweddariad chwe mis \(6 Gorffennaf 2023\)](#)
-

Defnyddio Cymraeg yn eich busnes

Gall defnyddio ychydig o Gymraeg wneud gwahaniaeth mawr a chynnig manteision pwysig i'ch busnes. Mae Helo Blod yn cynnig gwasanaeth cyfieithu i'r Gymraeg sydd am ddim, yn gyflym a chyfeillgar. Cewch wybod mwy ar [Croeso i Helo Blod | Helo Blod](#)

Newyddion diweddaraf Busnes Cymru

Sicrhewch eich bod yn cael y newyddion a'r blogiau diweddaraf gan Busnes Cymru – ewch i: [Newyddion a Blogiau | Busnes Cymru](#). Mae rhai o'r erthyglau diweddaraf yn cynnwys:

- [Deddf newydd ar ailgylchu yn y gweithle](#)
- [Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol](#)
- [Canllaw newydd: cyflwyniad i reoli iechyd a diogelwch](#)
- [Diweddariadau gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth \(ICO\)](#)
- [BlasCymru/TasteWales 2023 – Cofrestrwch eich Diddordeb!](#)
- [Galw am Dafarndai Dementia-gyfeillgar](#)

Tanysgrifiwch ar gyfer newyddlen Busnes Cymru ar [Llywodraeth Cymru](#) – ar ôl cofrestru, gallwch fewngofnodi a rheoli eich holl danysgrifiadau gyda Llywodraeth Cymru.

Mynnwch yr wybodaeth ddiweddaraf drwy newyddion y diwydiant

Edrychwch ar gylchlythyrau a bwletinau a gyhoeddwyd yn flaenorol i'r diwydiant gan Croeso Cymru: [Cylchlythyrau/Bwletinau Twristiaeth | Drupal \(!lyw.cymru\)](#).

Ar gyfer cymorth a chynngor penodol i fusnesau ynglŷn â delio â coronafeirws, o gynllunio ariannol a chynllunio cadwyni cyflenwi i gael cynngor ar faterion staffio, cynghorir busnesau twristiaeth a rhanddeiliaid yng Nghymru i ymweld â [gwefan Busnes Cymru](#) neu ffonio llinell gymorth busnes Cymru ar 03000 6 03000. Dylech ddarllen [gwefan Iechyd Cyhoeddus Cymru](#) yn rheolaidd i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am iechyd y cyhoedd i chi, eich staff a'ch ymwelwyr.

Methu gweld yr ebost hwn? [Ewch ar-lein](#)



Gallwch ddiweddarau eich tanysgrifiadau, newid eich cyfrinair neu eich cyfeiriad e-bost, neu ddileu tanysgrifiadau ar unrhyw adeg drwy fewngofnodi i'ch [cyfrif](#).

I dderbyn diweddariadau

Rhowch eich cyfeiriad e-bost e.g. name@example.com

Mynd

Share Bulletin



Powered by



[Privacy Policy](#) | [Datganiad Cweis](#) | [Help](#)